Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Maes y Gornel
# Ysgol Hooson
# Heol Caradog
# Rhos
# Wrecsam
# LL14 1DD

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/08/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Maes y Gornel.  Mae'n cwrdd mewn ystafell hunangynhaliol yn Ysgol I D Hooson ym mhentref Rhosllanerchrugog, yn awdurdod lleol Wrecsam.  Mae'r lleoliad yn darparu addysg am bum bore'r wythnos rhwng 9.00 y bore ac 11.00 y bore yn ystod tymhorau'r ysgol.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 27 plentyn ar unrhyw adeg benodol ac yn derbyn plant rhwng dwy flwydd a hanner a thair oed.  Ar hyn o bryd, mae pob plentyn tair blwydd oed yn cael ei ariannu ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar.  Mae bron pob un o'r plant yn dod o gefndir gwyn Prydeinig ac nid oes un plentyn yn siarad Cymraeg fel ei famiaith.  Ar hyn o bryd, nid oes un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r lleoliad yn cyflogi tri ymarferydd cymwysedig gan gynnwys yr arweinydd.  Dechreuodd yr arweinydd yn ei swydd ym mis Mai 2010.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ddiwethaf ym mis Ebrill 2018 a gan Estyn ym mis Ionawr 2013.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o'r plant yn cyflawni'n gadarn o'u mannau cychwyn
- llawer o'r plant yn datblygu dealltwriaeth o'r Gymraeg a medrau llafar cynnar effeithiol
- llawer o'r plant yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llwyddiannus
- ymarferwyr yn cynllunio cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n darparu profiadau dysgu diddorol a difyr
- asesiadau trylwyr yr ymarferwyr yn arwain yn uniongyrchol at gynllunio'r camau nesaf yn nysgu plant unigol
- ymarferwyr yn trafod yn ddeallus gyda'r plant beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith
- ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn gydwybodol a diwyd
- gofal gwyliadwrus yr ymarferwyr yn creu amgylchedd dysgu llwyddiannus yn yr adeilad a thu allan

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd yn rhoi cyfeiriad clir i waith y lleoliad er mwyn gwella'r profiadau dysgu a safonau'r plant
- gan yr arweinydd adnabyddiaeth synhwyrol o gryfderau'r lleoliad a'r meysydd sydd angen eu gwella
- yr athrawes gyswllt a'r person cofrestredig gweithredol yn sicrhau cefnogaeth bwrpasol i waith y lleoliad
- targedau priodol i greu gwelliannau pellach yn symud y lleoliad ymlaen at lwyddiannau
- hyfforddiant yr ymarferwyr yn effeithiol ac yn dylanwadu'n fuddiol ar wella safonau'r plant a'u gofal, cymorth ac arweiniad effeithiol
- defnydd ymarferol o wasanaethau cymorth yn effeithio ar y ddarpariaeth yn fwriadus
- partneriaethau cadarnhaol gyda rhieni, gofalwyr ac asiantaethau allanol yn cefnogi'r camau nesaf yn nysgu'r plant yn llwyddiannus

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod yr holl blant yn barod yn brydlon i ddyfalbarhau i gwblhau tasgau'n annibynnol

A2 Cynnal diddordeb y plant yn ystod sesiynau torfol a chyflwyniadau i dasgau ffocws

A3 Creu cydbwysedd synhwyrol rhwng gweithgareddau sydd dan gyfarwyddyd y plant a gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion

A4 Sicrhau bod canfyddiadau'r hunanarfarnu'n cyfatebu'n uniongyrchol â thargedau'r cynllun datblygu

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae llawer o'r plant yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Maent yn dysgu'n llwyddiannus ynglŷn â'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth ar draws y meysydd dysgu ac yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh effeithiol. Mae dealltwriaeth llawer ohonynt o'r Gymraeg yn datblygu'n gyflym o fannau cychwyn isel.

Mae llawer o'r plant yn deall ac yn ymateb i batrymau iaith ac ymadroddion yn effeithiol, gydag anogaeth oedolion, mewn chwarae anffurfiol ac wrth ganu yn ystod sesiynau torfol. Er enghraifft, maent yn trafod lliwiau a siapiau'n dda ac yn ystyried yn hyderus y gwahaniaethau sy'n bodoli rhwng trychfilod gwahanol fel lindys a phryf genwair. Mae ychydig ohonynt yn ceisio creu brawddegau syml, wrth adeiladu ar eu hymwybyddiaeth o batrymau iaith penodol, wrth weddïo, a gofyn yn gwrtais am ddiod a byrbryd o amgylch y byrddau bwyta.

Mae mwyafrif o'r plant yn trin a thrafod llyfrau wrth eistedd ar glustogau yn yr ardal ddarllen, fel darllenwyr cynnar, synhwyrol. Maent yn ymateb yn ddeallus i holi ymarferwyr wrth drafod cymeriadau a digwyddiadau mewn storïau. Wrth ymateb i gynnwys llyfrau gydag oedolion yn ystod sesiynau torfol, mae llawer o'r plant yn deall diben y lluniau a phwrpas yr ysgrifennu i gyfleu'r stori. Mae llawer o'r plant yn synhwyro'n ddeallus fod digwyddiadau mewn stori yn arwain at ddiweddglo penodol fel sylweddoli mai canlyniad cylch bywyd lindys yw'r pili-pala a bod sbwriel yn llygru'r amgylchedd.

Mae llawer o'r plant yn creu marciau yn effeithiol wrth arbrofi â gwahanol gyfryngau. Maent yn dyfalbarhau â phrofiadau ysgrifennu cynnar ac yn defnyddio creonau i farcio a thynnu lluniau ar bapur yn bwrpasol. Maent yn peintio a defnyddio sialc ar fyrddau du yn llwyddiannus i gyfleu tymhorau'r flwyddyn fel haul yr haf a nodweddion y gwanwyn fel blodau lliwgar. Mae ychydig iawn o'r plant yn ymdrechu'n synhwyrol i nodi ar badiau â phensil pa greaduriaid sydd i'w gweld yn ystod helfa yn yr ardal allanol. Mae llawer o'r plant yn adnabod eu henwau eu hunain ac enwau cyfoedion yn gywir wrth hunangofrestru. Yn ogystal, mae ychydig iawn ohonynt yn dechrau ffurfio llythrennau a rhifau yn effeithiol mewn ffurfiau adnabyddadwy.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn cyfrif gwrthrychau i 10 heb gymorth oedolyn yn gywir. Maent yn defnyddio iaith fathemategol yn bwrpasol wrth iddynt drafod siapiau a'u cymharu. Mae llawer o'r plant yn didoli gwrthrychau gwahanol yn ôl lliw a siâp yn llwyddiannus ac yn rhifo sawl gwahanol gwrthrych sydd ganddynt yn gywir, fel nifer y cerbydau a beiciau sydd ar y llwybr tu allan. Mae ychydig iawn o'r plant yn deall sut i ddechrau bondio rhifau at bump yn gywir, gan ddefnyddio eu bysedd eu hunain a thrwy drefnu gwrthrychau mewn bowlenni. Mae rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio siapiau dau a thri dimensiwn yn bwrpasol mewn gweithgareddau ymarferol, er enghraifft wrth gymharu lluniau a'u cyfatebu â modelau go iawn o drychfilod. Mae rhan fwyaf o'r plant yn deall y gwahaniaethau mewn maint wrth gymharu gwrthrychau â'i gilydd ac os ydynt yn 'fach', yn 'fawr', yn 'llai' neu'n 'fwy'. Enghraifft effeithiol o hyn yw dealltwriaeth gadarn y plant bod y botel blastig fwyaf sydd ar y ffens yn dal fwy o ddŵr na'r botel leiaf.

Mae rhan fwyaf o’r plant yn defnyddio cyfarpar TGCh yn dda. Maent yn gwneud hyn trwy ddefnyddio cyfrifiadur, llechi, teganau a dyfeisiau electronig mewn gweithgareddau ffocws a pharhaus yn hyderus. O ganlyniad, mae eu defnydd o raglenni addysgol, apiau a chaledwedd yn datblygu eu medrau meddwl a chyfleoedd i ddatrys problemau yn effeithiol.

Mae rhan fwyaf o’r plant yn mwynhau gwrando ar gerddoriaeth yn astud ac maent yn perfformio’n frwdfrydig wrth ganu a gwneud synau gwahanol gyda drwm ac offer y gegin yn yr ardal allanol. Maent yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn gyrru beiciau a cherbydau’n fywiog ar lwybr yr ysgol, yn dringo’n frwdfrydig ar gyfarpar anturus ac yn neidio o un cylch i’r llall yn yr ardal allanol. Mae medrau meddwl mwyafrif o’r plant a’u gallu i ddatrys problemau yn datblygu’n effeithiol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o’r plant yn dyfalbarhau i ddatrys a chwblhau tasgau’n gyson. O ganlyniad, mae eu hannibyniaeth, eu hymdrechion i lwyddo a’u gwydnwch tuag at gwblhau heriau yn ddigonol.

Mae llawer o’r plant yn dewis offer a deunyddiau yn effeithiol i ymestyn eu creadigrwydd. Er enghraifft, maent yn coginio’n frwdfrydig wrth ymyl y gegin fwd, yn gwisgo doliau a’u gorwedd i gysgu, ac yn gosod llestri yn yr ardal gartref i fwydo’u cyfoedion â darnau o bitsa.

**Lles: Digonol**

Mae llawer o’r plant yn uniaethu’n dda ag oedolion ac ymwelwyr wrth iddynt gyrraedd a gadael y lleoliad. Mae’r mwyafrif yn dangos cymhelliant a dyfalbarhad wrth ymateb i weithgareddau amrywiol ac maent yn canolbwyntio’n dda ar eu dysgu. Fodd bynnag, mae lleiafrif o’r plant yn colli diddordeb yn gyflym mewn gweithgareddau a gynlluniwyd ar eu cyfer ac yn colli sylw yn ystod sesiynau torfol a chyflwyniadau i dasgau ffocws.

Mae llawer o’r plant yn ymddwyn yn dda ac maent yn gwrtais. Heblaw am ychydig ohonynt, maent yn gwrando’n astud ar oedolion. Er enghraifft, maent yn cefnogi’n frwdfrydig fel helpwr y dydd ac yn dilyn cyfarwyddiadau’n dda ar sut i greu collage gyda glud, brwyn a gwlân cotwm. Yn ogystal, mae llawer ohonynt yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at brofiadau newydd, fel arbrofi â thywod, trwy lenwi bwcedi a rhidyllu’r tywod, a chymysgu cynhwysion cacennau. O ganlyniad, mae llawer o’r plant yn dangos eu bod nhw’n mwynhau’r gweithgareddau ym mhob maes dysgu.

Mae’r mwyafrif o’r plant yn dechrau mynegi eu barnau a’u hoffterau personol yn ddeallus. Maent yn rhannu a gweithio’n synhwyrol gyda’i gilydd ac yn dechrau gweithgareddau’n brydlon. Fodd bynnag, mae lleiafrif ohonynt yn oedi cyn iddynt ddechrau gweithgareddau ac maent yn dibynnu’n ormodol ar gyfarwyddiadau oedolion i ddyfalbarhau â thasgau heriol. O ganlyniad, mwyafrif o’r plant sydd yn ddysgwyr annibynnol a hunangynhaliol, wrth iddynt ymdrechu i ddatrys a chwblhau heriau gwahanol.

Ar ôl defnyddio’r toiled, chwarae anniben a gweithgareddau awyr agored, mae rhan fwyaf o’r plant yn golchi eu dwylo’n drylwyr heb ormod o anogaeth gan ymarferwyr. Maent yn adnabod yn ddeallus fod glendid yn gefn i osgoi heintiau drwg ac yn bwysig i gynnal bywydau iachus.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu'r plant yn drwyadl er mwyn bodloni eu hanghenion a'u diddordebau'n synhwyrol. Mae'r cynllunio'n weithredol ac effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n ddiwyd i ddarparu gweithgareddau diddorol ar draws yr holl feysydd dysgu, yn yr adeilad ac yn yr awyr agored. Er enghraifft, maent yn cymell y plant i ddysgu'n ymarferol trwy osod y bwrdd a choginio yn yr ardal gartref a chanu am y tywydd a dyddiau'r wythnos. O ganlyniad, maent yn darparu cwricwlwm pwrpasol, sy'n adlewyrchu ethos y cyfnod sylfaen yn llwyddiannus.

Mae'r holl ymarferwyr yn trafod cynnydd plant unigol mewn cyfarfodydd rheolaidd, ac yn trefnu gweithgareddau yn ddeallus ar sail hyn. Mae hyn yn cyfoethogi'r gweithgareddau ymhellach wrth i'r ymarferwyr ddarparu gweithgareddau i dargedu'r camau nesaf yn nysgu plant unigol yn y cynllunio wythnosol. O ganlyniad, mae'r gweithgareddau dyddiol yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at ddysgu'r plant. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd cadarn i blant greu cylchoedd gyda chreonau ar bapur a rhaglennu ceir electronig i deithio o gwmpas y trac a grëwyd ganddynt.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu medrau llafar Cymraeg yn fuddiol i'r plant ac yn effeithio ar safonau'r plant yn y Gymraeg yn fwriadus. Mae'r ymarferwyr yn fodelau brwdfrydig o'r iaith. Maent yn cynorthwyo'r plant sy'n dechrau dysgu'r iaith yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i ddefnyddio'r iaith gymaint ag y bo modd trwy weithgareddau diddorol. Mae llawer o'r plant yn deall ac ymateb â geiriau ac ymadroddion cyfarwydd yn fuan ar ôl cychwyn yn y lleoliad. O ganlyniad, mae dealltwriaeth llawer o'r plant o'r iaith yn datblygu'n gyflym.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant yn bwrpasol. Mae gweithgareddau i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant yn amlwg ym mhob maes dysgu ac yn eu herio'n gyson i berfformio ar eu gorau. Gwelir enghreifftiau ymarferol o hyn wrth i blant drafod a pheintio nodweddion buwch goch gota ar îsl. Yn ychwanegol, maent yn cymryd archebion am gacennau a thê ar bapur yn y caffi ac yn gwthio trenau yn eu tro lan a lawr llethr serth. O ganlyniad, mae'r profiadau dysgu hyn, a'u tebyg, yn werthfawr ac yn cynnig dilyniant a pharhad effeithiol yn nysgu'r plant.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu TGCh yn effeithiol ac yn cynnig cyfleoedd da i'r plant ddefnyddio camerâu, chwaraeydd cryno ddisg, teganau a llechi electronig. Cânt eu herio'n gyson i ddefnyddio meddalwedd addysgol ac apiau yn rheolaidd i ddatblygu eu medrau TGCh cynnar.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru'n llwyddiannus. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen, coginio cawl a thrafod ac adeiladu cestyll Cymru gyda blociau.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau corfforol y plant yn bwrpasol. Maent yn gadael iddynt ddringo cyfarpar anturus a llithro i'r llawr yn annibynnol, gyrru beiciau a cherbydau'n fywiog, neidio o un cylch i'r llall a theithio ar hyd blociau yn yr ardal allanol. Mae hyn yn gwella'u profiadau a'u medrau corfforol yn effeithiol.

Mae’r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd effeithiol i ddatblygu medrau creadigol y plant. Er enghraifft, maent yn tynnu llun â sialc ar fyrddau du i greu pryfyn a gwisgo fel cymeriadau wrth chwarae rôl fel adeiladwyr a thywysoges.

Mae’r lleoliad yn gwneud defnydd addas o ymweliadau i gyfoethogi profiadau dysgu’r plant. Er enghraifft, mae mynychu gwyliau Mudiad Meithrin, ymweliadau i’r parc lleol a chaeau cyfagos i astudio ceffylau yn atgyfnerthu’r cwricwlwm yn briodol. Yn ogystal, mae’r glanweithydd deintyddol yn ymweld â’r lleoliad yn achlysurol i addysgu’r plant yn dda am ofalu am eu dannedd.

**Addysgu: Digonol**

Mae’r ymarferwyr yn cydweithio’n bwrpasol ac yn cyfarch y plant yn gynnes wrth iddynt gyrraedd y lleoliad. Maent yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth addas o ofynion ac athroniaeth y cyfnod sylfaen. Ar y cyfan, mae’r ymarferwyr yn rheoli ymddygiad y mwyafrif o’r plant yn effeithiol. Fodd bynnag, nid ydynt yn sicrhau bod y plant yn barod i weithio ar weithgareddau’n brydlon. O ganlyniad, nid yw’r plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i gyfrannu’n ystyrlon i’w dysgu.

Mae’r ymarferwyr yn holi’r plant yn llwyddiannus i ddatblygu eu medrau cyfathrebu a’u medrau rhifedd. Er enghraifft, maent yn trin a thrafod y broses o gyfatebu a pharu gwrthrychau â lluniau yn llwyddiannus ac yn ystyried sut i greu trychfilod allan o does yn synhwyrol. Fodd bynnag, mae’r ymarferwyr yn dueddol i ymyrryd yn ormodol yn ystod gweithgareddau, sy’n cyfyngu dysgu annibynnol y plant. O ganlyniad, nid oes cydbwysedd synhwyrol rhwng gweithgareddau sydd dan gyfarwyddyd y plant a gweithgareddau sy’n cael eu harwain gan oedolion.

Mae’r ymarferwyr yn cynllunio ac yn darparu ystod eang o gyfleoedd i blant ddefnyddio cyfarpar ac adnoddau’n bwrpasol yn ystod profiadau ymarferol wrth iddynt chwarae. Mae ganddynt ddisgwyliadau cadarn ar gyfer y plant ac maent yn eu herio i wella’u gwaith yn gyson. Fodd bynnag, mae ambell gyflwyniad torfol a thasg ffocws yn colli cyflymder ac, o’r herwydd, mae ychydig o blant yn anghofio bwriad dysgu’r weithgaredd.

Mae’r ymarferwyr yn defnyddio proffil y cyfnod sylfaen yn rheolaidd ac yn bwrpasol. Maent yn adeiladu tystiolaeth o gynnydd y plant yn erbyn deilliannau dilys yn effeithlon, wrth iddynt aeddfedu yn y lleoliad. O ganlyniad, mae’r ymarferwyr yn cwblhau asesiadau cyson yn drwyadl. Maent yn cofnodi arfarniadau a thrafodaethau mewn llyfrynnau cofnodi defnyddiol ac yn defnyddio’r sylwadau i dargedu’r camau nesaf yn nysgu unigolion yn fwriadus. Mae manylder eu gwaith yn llywio’r cynllunio’n effeithiol, yn enwedig wrth iddynt dargedu gwelliannau yn y Gymraeg, trwy ddefnyddio canllawiau’r Mudiad Meithrin i hybu’r iaith. Yn ogystal, maent yn trafod yn ddeallus gyda’r plant beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith.

Mae’r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn briodol am gyflawniadau eu plant. Cynhelir trafodaethau buddiol ganddynt, sydd wedi eu seilio ar gynnydd a phroffiliau gwaith y plant, cyn iddynt drosglwyddo i’r ysgol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae’r lleoliad yn cynnig cyfleoedd buddiol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae’r ymarferwyr yn meithrin y gwerthoedd hyn yn llwyddiannus yn ddyddiol. Maent yn defnyddio sesiynau fel amser byrbryd yn ddoeth i atgoffa’r plant i ddiolch ac i gymdeithasu gyda’i gilydd yn gwrtais. Maent yn sicrhau bod llawer o’r plant yn ystyried teimladau eu cyfoedion yn ddeallus, yn ymateb i’w gilydd â thegwch ac yn parchu eraill, gan gynnwys oedolion.

Mae’r holl ymarferwyr yn creu amgylchedd myfyriol wrth ddarparu cyfleoedd cadarnhaol i’r plant feddwl, trafod teimladau, dweud diolch a gweddïo. O ganlyniad, mae rhan fwyaf o’r plant yn cymryd eu tro’n gwrtais wrth iddynt olchi dwylo gyda’i gilydd, arllwys diod o jygiau a gweini byrbrydau. Mae’r arferion hyn, yn ogystal â thacluso cyfarpar a chymryd eu tro fel helpwr y dydd, yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bob plentyn feithrin cyfrifoldeb yn ystod digwyddiadau cymdeithasol.

Mae trefniadau da yn bodoli i gefnogi iechyd a lles plant. Mae’r lleoliad yn gweithredu systemau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae bron pob un o’r plant yn deall bod ffrwythau, llysiau ac ymarfer corff yn cyfrannu at ffordd synhwyrol o fyw ac yn arwain at fywydau iachus.

Mae’r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cerdyn a nwyddau plastig trwy ddefnyddio blychau penodol wrth ymyl y gegin. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y plant o gynaliadwyedd yn llwyddiannus.

Mae’r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy’n dileu ysbeidiau o aflonyddwch ac ymddygiad annerbyniol yn fuan. Mae’r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae’r ymarferwyr yn wyliadwrus pan fydd y plant yn cyrraedd ac yn cael eu casglu. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae’r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn drwyadl pan fyddant yn ymuno ac yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Adolygir cynnydd y plant yn rheolaidd a chaiff eu mannau cychwyn eu nodi’n drylwyr gan ddilyn canllawiau proffil y cyfnod sylfaen. Mae’r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn gyfarwydd iawn â’r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plant, ac yn eu defnyddio’n bwrpasol i gefnogi unigolion gyda chefnogaeth arbenigol. O ganlyniad, mae’r lleoliad yn targedu plant penodol gyda chymorth ychwanegol ac effeithiol, fel ymyrryd i wella llafaredd ambell blentyn pan fo’r angen yn codi.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae gan yr ymarferwyr adnabyddiaeth glir o anghenion y plant ac mae’r cwricwlwm yn targedu gwelliannau yn eu medrau yn effeithiol. Mae hyn yn arwain at greu cymuned gynhwysol lle mae’r holl blant yn cael cyfle cyfartal i ddysgu yn yr ardaloedd gwahanol. Mae’r ymarferwyr yn cefnogi plant yn ddyddiol mewn modd priodol yn ystod eu sesiynau addysgu.

Mae’r arweinydd a’r ymarferwyr yn rhoi pwyslais dyddiol ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Maent yn hyrwyddo ethos cadarnhaol drwy eu gweithgareddau pob dydd a’u hagweddau synhwyrol. Maent yn addysgu’r plant am wahanol wyliau a diwylliannau’r byd yn dda. O ganlyniad, maent yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i’r plant ddathlu gwyliau o wledydd tramor fel y Flwyddyn Newydd Dseiniaidd. Yn ogystal, mae gweithgareddau dyddiol fel gwisgo doliau o wahanol ddiwylliannau yn gwella ymwybyddiaeth y plant o debygrwydd a gwahaniaethau pobl ein byd.

Mae'r lleoliad yn defnyddio adnoddau'n bwrpasol i fodloni gofynion y cyfnod sylfaen ac anghenion plant. Caiff ystod o adnoddau diddorol eu defnyddio'n effeithiol mewn gweithgareddau ffocws ac i gyfoethogi'r dysgu fel canu a chwarae offerynnau gyda'i gilydd i greu cerddorfa. Mae'r adnoddau'n cael eu cadw ar lefel ymarferol i bob un o'r plant eu cyrraedd. Mae hyn yn galluogi'r plant eu hestyn a'u rhoi i gadw heb ymyrraeth oedolion, sy'n effeithio'n ddefnyddiol ar hyrwyddo synnwyr o gyfrifoldeb ymysg y plant. Mae gan y lleoliad ddigon o adnoddau TGCh o ansawdd da i ddatblygu medrau'r plant yn llwyddiannus.

Mae'r adeilad o ansawdd da, yn cael ei gynnal yn effeithiol ac mae'n ddiogel. Defnyddir yr holl ofod yn yr adeilad yn synhwyrol ar gyfer darparu gweithgareddau bywiog a difyr dan do. Mae'r ardal allanol yn cynnwys ardaloedd plannu a thyfu, cyfarpar i ddringo ac ardaloedd diddorol i ddatrys problemau gyda dŵr a chegin fwd. Mae'r lleoliad yn defnyddio'r holl ardaloedd hyn yn greadigol a phwrpasol.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd yn arwain tîm o ymarferwyr ymroddgar a chydwybodol. Mae hi'n llwyddo i'w hannog i wella mewn ffyrdd synhwyrol a chefnogol. Maent yn cydweithio'n effeithiol ac yn hyrwyddo a chynnal gwelliannau yn llwyddiannus. Mae gweledigaeth yr arweinydd yn sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth yn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgu'r plant, gofal yr ymarferwyr tuag atynt a'r amgylchedd dysgu. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth yn effeithio ar safonau'r plant yn dda ar y cyfan.

Mae'r arweinydd yn darparu cyfeiriad cadarn ar gyfer arferion dyddiol a thymor hir y lleoliad. Mae amcanion, cynlluniau a pholisïau'r lleoliad yn canolbwyntio'n bwrpasol ar fodloni anghenion y plant ac yn sicrhau gwelliannau buddiol yn eu medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a'r Gymraeg.

Mae'r arweinydd yn rhannu gwybodaeth am arferion y lleoliad yn effeithlon gyda phob un o'r ymarferwyr ac maent yn cyfarfod yn rheolaidd i gynllunio'r cwricwlwm a gweithgareddau cysylltiedig. Mae hyn yn sicrhau bod pob un o'r ymarferwyr yn deall eu rolau'n llawn ac yn gweithio gyda'i gilydd yn ddyddiol fel tîm effeithiol. Yn ogystal, maent yn ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol a gofynion y cyfnod sylfaen yn gydwybodol.

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn gweithio'n agos gydag aelodau'r pwyllgor rheoli, yn enwedig y person cofrestredig a'r athrawes gyswllt sydd wedi ei lleoli yn yr ysgol. Mae eu arferion goruchwylio, gwerthuso a monitro yn sicrhau bod yr arweinydd yn gwneud y defnydd gorau o arbenigedd ymarferwyr. Mae hyn yn hynod amlwg mewn tasgau yn yr ardal allanol ac wrth gynllunio'r cwricwlwm yn wythnosol.

Mae'r pwyllgor rheoli'n derbyn gwybodaeth gadarn am arferion y lleoliad gan yr arweinydd. Maent yn cyfarfod i fonitro arferion y lleoliad ac i gefnogi'n ariannol. Maent yn herio'r lleoliad yn gyson fel ffrind beirniadol i wella'r ddarpariaeth. Enghraifft o hyn yw'r modd y maent wedi cefnogi'r ymarferwyr i wella'r defnydd o'r ardal allanol a chyllido cyfarpar newydd i hybu'r ddarpariaeth TGCh.

**Gwella ansawdd:  Da**

Mae diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu a gwelliannau dros amser yn treiddio trwy waith y lleoliad.  Mae'r arweinydd, dan arweiniad yr athrawes gyswllt, wedi sefydlu trefniadau cyson i fonitro deilliannau'r plant, y ddarpariaeth, ei rôl hi, yr ymarferwyr a'r pwyllgor rheoli.  Mae'r gweithdrefnau hunanarfarnu yn ystyried barnau ymarferwyr, rhieni a gofalwyr, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn effeithiol.

Trwy gydweithio llwyddiannus, mae'r wybodaeth a gasglwyd dros gylch o ddwy flynedd, trwy weithdrefnau'r awdurdod lleol, yn cyfrannu'n dda at yr arferion hyn.  O ganlyniad, mae'r lleoliad wedi gwneud gwelliannau ystyrlon dros amser, fel datblygu'r cyfleoedd i ddefnyddio cyfarpar ac apiau TGCh a defnydd y plant o'r ardal lyfrau.  Fodd bynnag, ar adegau, mae'r cyswllt rhwng y meysydd i'w gwella yn yr hunanarfarniad â thargedau'r cynllun datblygu yn anghyson.  Nid yw'r adroddiad hunanarfarnu yn cynnwys digon o fanylion ynglŷn â sut a pham mae'r lleoliad wedi dewis a dethol y targedau er mwyn gwella rhai meysydd ymhellach.

Mae'r arweinydd yn blaenoriaethu gwariant yn ddefnyddiol, yn unol â'r camau gweithredu a nodwyd ar gyfer gwella.  Mae hi'n cytuno ar y targedau gyda'i chydweithwyr a'r pwyllgor rheoli ac maent yn gweithredu'r newidiadau'n bwrpasol ar y cyd.

Mae'r arweinydd yn gwrando'n dda ar gyngor eraill ac mae hi'n awyddus i dderbyn syniadau newydd a awgrymwyd gan yr athrawes gyswllt a'r swyddog Mudiad Meithrin.  Maent yn gweithredu'n rheolaidd ar eu cyngor er lles y plant.  Mae hyn yn arwain at welliannau buddiol, fel defnyddio proffil y cyfnod sylfaen i wella'r arferion asesu ac ailstrwythuro'r cynllunio i dargedu anghenion unigolion yn well.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae'r lleoliad yn gweithio'n dda gyda phartneriaid i wella safonau'r plant a'r ddarpariaeth.  Mae'r partneriaethau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar arferion dyddiol y lleoliad, fel defnyddio tir yr ysgol a'r holl offer sydd ar gael iddynt.

Mae gan y lleoliad gyswllt cadarnhaol â'r ysgol.  Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn derbyn cyngor ac arweiniad gwerthfawr oddi wrth yr athrawes gyswllt, sy'n aelod o staff yn yr ysgol.  Mae'r athrawes gyswllt yn ymweld â'r lleoliad yn rheolaidd ac mae ei mewnbwn hi wedi gwella sawl agwedd ar ddarpariaeth y lleoliad, gan gynnwys asesiadau dyddiol a'r cynllunio.  Mae effaith y bartneriaeth hon yn llwyddiannus.  O ganlyniad, mae cefnogaeth gadarn yn bodoli i'r trefniadau pontio.  Mae trosglwyddo gwybodaeth bersonol ac asesiadau'r plant yn effeithiol a buddiol wrth iddynt ymgartrefu ym mywyd yr ysgol.  Yn ychwanegol, mae'r lleoliad yn cydweithio'n dda â'r ysgol i gefnogi elusennau lleol a chenedlaethol.  Mae hyn yn helpu meithrin tynerwch a gofal ymhlith y plant.

Mae'r ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad.  Maent yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn gyson am bob agwedd ar waith y lleoliad.  Maent hefyd yn eu hannog i fynegi eu barnau ar faterion i wella'r lleoliad drwy holiaduron a thrafodaethau achlysurol.

Mae’r lleoliad yn gweithio’n synhwyrol gydag asiantaethau allanol, fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae’r perthnasoedd cadarnhaol hyn yn atgyfnerthu gwaith y lleoliad ac yn ei gefnogi’n weithredol gyda dogfennaeth i hwyluso’r gweithdrefnau rheolaethol.

Mae’r ymarferwyr yn gweithio ac yn cysylltu ag ystod eang o bartneriaid eraill, sy’n gwneud cyfraniad pwysig at wella’r ddarpariaeth. Mae’r rhain yn cynnwys asiantaethau sy’n cefnogi’r lleoliad gyda hyfforddiant cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd, hyfforddiant y cyfnod sylfaen ac amddiffyn plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r arweinydd a’r ymarferwyr, gyda chymorth y pwyllgor rheoli, Mudiad Meithrin a’r athrawes gyswllt, wedi creu gwelliannau effeithiol ynglŷn â nifer o agweddau pwysig ym mywyd y lleoliad. Gwneir hyn drwy wella rheoli perfformiad yr holl ymarferwyr a defnyddio a chynyddu’r adnoddau yn llwyddiannus. Mae’r strategaethau hyn a rhai tebyg, fel datblygu cynllunio a threfniadau asesu bwriadus, yn galluogi’r ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth a datblygiadau proffesiynol yn effeithlon. O ganlyniad, maent yn sicrhau bod y lleoliad yn effeithio ar safonau a Chymraeg y plant yn dda, trwy hyfforddiant ac arweiniad pwrpasol.

Mae’r lleoliad yn rheoli adnoddau’n dda, yn yr adeilad ac yn yr awyr agored, i gefnogi’r dysgu. Mae arferion a threfniadau dyddiol y lleoliad yn gyson ac yn sicrhau bod plant yn elwa o brofiadau dysgu diddorol a chadarnhaol. Mae’r ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn cael mynediad parod i ddigon o adnoddau hylaw i gefnogi eu dysgu’n dda.

Mae gan yr arweinydd a’r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o’r gyllideb, ac maent yn blaenoriaethu gwariant drwy nodi cyfrifoldebau a graddfeydd amser synhwyrol. Maent yn creu gwelliannau rheolaidd trwy drafod ac ariannu cynlluniau ar gyfer gwella yn bwrpasol, sy’n cynnwys diweddaru adnoddau TGCh. Mae’r lleoliad yn sicrhau bod defnydd o gyllid yn cael effaith uniongyrchol ar safonau’r plant, ynghyd â’r ddarpariaeth o brofiadau dysgu a’r gofal diwyd.

Yn gyffredinol, mae’r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian oherwydd yr effaith gadarnhaol ar ddeilliannau’r plant.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGC** | Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |